Y DINESYDD

RHIF. 2 MAI 1973

YR AGORIAD SWYDDOGOL

Dydd o lawenydd mawr oedd hi yn Ysgol Rhydfelen, nawn Gwener, Mawrth 23. Pawb a phopeth ar eu gorau i ddathlu amgylchiad hapus ac arwyddocaol Agoriad Swyddogol yr ysgol—a chysylltu yn y dathlu nodi deng mlynedd cyntaf Rhydfelen.

Hanes tŵf cyson mewn nifer disgyblion ac adeiladau a fu dros y blynyddoedd, a theg yw dweud bod yr ysgol erbyn hyn wedi hen ennill ei phlwyf, ac yn barod i wynebu'r deng mlynedd nesaf—a'r rhai i ddod—yn llawn hyder. Arwyddair yr ysgol yw "Deuparth Ffordd eu Gwybod."

Hanes yr ysgol yn fyr

I gwrdd â dymuniad rhieni i'w plant gael addysg uwchradd ddwy-ieithog y sefydlwyd Ysgol Rhydfelen. Agorwyd yr ysgol gan Bwyllgor Addysg Morgannwg yn Medi 1962 gyda 80 o ddisgyblion. Hon oedd y gyntaf o'i bath yn Ne Cymru. Y Prifathro presennol, Mr. Gwilym Humphreys a fu wrth y llyw o'r cychwyn, a theg yw dweud mai iddo ef yn bennaf mae'r clod am y lle diogel ac anrhydeddus a roddir i'r ysgol heddiw yng Nghymru.

Daw'r plant i'r ysgol o gylch eang, ac o bedwar Awdurdod Addysg — Morgannwg, Caerdydd, Merthyr, a Mynwy. Un o'r ffeithiau hapus am Rydfelen yw'r cydweithrediad hwn rhwng awdurdodau addysg.

Cartref cynnar Ysgol Rhydfelen oedd adeiladau coed a godwyd ar ôl y Rhyfel Byd cyntaf; maent yn sefyll ar yr un ochr i'r ffordd yn Rhyd-y-Felin, Pontypridd, a'r Coleg Addysg Pellach.

Cafwyd bloc newydd yn 1966 yn cynnwys Neuadd a Chegin, Llyfrgell, Ystafell Wnio, Labordy Bywydeg, a Labordy Ffiseg yn ogystal â thair ystafell ddosbarth.

Yr ychwanegiadau diweddaraf yw bloc a lle i'r Uned Chweched Dosbarth—hon gyda'r orau yn y wlad, ble mae lolfa, ac ynddi beiriant gwneud coffi a the, neu ddiod twym arall; llyfrgell, ystafelloedd tawel i weithio, ac ystafelloedd dosbarth. Y mae yma hefyd Bwll Nofio, Ystafelloedd Masnach, Celf, a Gwaith Metel; ystafell i'r Prifathro ac ystafell athrawon.

Polisi'r ysgol yw dysgu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Saesneg, a'r pynciau eraill i gyd yn Gymraeg hyd at safon Lefel A. Cymraeg yw iaith yr ysgol ymhob peth arall.

Rhaid talu teyrnged uchel i waith y Gymdeithas Rieni. Bu'n gefn i'r ysgol a'r Prifathro ar hyd y deng mlynedd, gan godi arian i lanw rhai bylchau a phrynu offer a llyfrau ysgol, a thrwy dalu costau teithio disgyblion i eisteddfodau a lleoedd eraill; a threfnu gweithgareddau diwylliannol ac adloniadol ar gyfer rhieni Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd.

OLWEN WALTERS

Ymlacio yn ysgol Rhydfelen

ORIEL

"Dod a'r celfyddydau yng Nghymru—o sawl maes—at eu gilydd dan yr un tô yw'r nôd", meddai Aneurin Thomas, Cyfarwyddwr Cyngor y Celfyddydau, wrth drafod bwriad y Cyngor i agor oriel siop-lyfrau yn yr hydref.

"Bydd yno le i lenyddiaeth, i gerddoriaeth (recordiau) a lle i artistiaid Cymru arddangos eu gwaith—gan gynnwys arlunwyr o bob math, beth bynnag eu harddull".

Tarddodd y syniad o'r adroddiad "Expanding Patronage" a gyflwynwyd i Bwyllgor Celf y Cyngor gan David Tinker, Adran Gelf Coleg Aberystwyth ac aelod o'r pwyllgor.

"Roeddwn i'n teimlo bod angen darganfod dull newydd o noddi artistiaid yng Nghymru, dull a fuasai'n eu galluogi i gynhyrchu ar gyfer marchnad eang yn ogystal â'r dosbarth canol dethol. I wneud hyn mae angen cyfalaf a gan mai'r Cyngor yw'r ffynhonnell debyca ... Hoffwn weld artist yn medru byw ar ei waith a'r cam cyntaf, yn fy nhyb i, yw sicrhau "ffenest-siop" iddo—ar hyd a lled Cymru os yn bosibl. Mae i'r llenor ei glawr-papur ac i'r cerddor ei recordiau ond hyd yn hyn ni lwyddodd yr artist i gyrraedd cynulleidfa lydan".

Er mai am gelf roedd David Tinker yn sôn yn arbennig daeth pwyllgorau Llên a Chelf y Cyngor at eu gilydd i drafod cynlluniau a phenderfynu gwario £16,000 yn 1973/74 ar agor drysau Oriel, 53 Charles St.

Yno, ar wahan i'r oriel gelf, bwriedir cynnig gwasanaeth tocynnau theatr a chyngerdd—a gwybodaeth am 'Be sy' mlaen' yng Nghymru. Mae'r cynlluniau, hefyd, yn cynnwys siop i werthu llyfrau yn ymwneud a chelf. cyhoeddiadau'r Cyngor, llyfrau Cymraeg a chyfrolau am Gymru.

Gweinyddir y siop gan H. J. Lear (y llyfrwerthwr lleol) a dywedodd ei rheolwr wrthyf na fydd y gwerthu yn Oriel yn effeithio dim ar amrywiaeth na maint ei stoc yn y siop bresennol. "Ond, trwy gasglu llyfrau celf at eu gilydd a'u harddangos yn ddeniadol mae'n bosibl y gallwn ennyn mwy o ddiddordeb yn y maes hwn na mewn siop lyfrau gymysg."

Fe gaiff y cynllun groeso gan ddarllenwyr ac artistiaid Caerdydd (a thu hwnt) ac fe gafodd, eisoes, groeso gofalus gan lyfrwerthwyr lleol. Cynhowyd yr ymateb gan reolwr siop S.P.C.K. "Fel pob dyn busnes hoffwn fod yn fonopoli—ar werthu llyfrau Cymraeg, er enghraifft. Ond breuddwyd ydy hynny. Pob hwyl i'r cynllun—beth bynnag, mae unrhywbeth sy'n hybu darllen, a *phrynu* llyfrau yn lles i'r farchnad".

Dyma'r ganolfan gyntaf o'r fath ym Mhrydain ond yn ystod y paratoadau ar gyfer Oriel cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Prydain ei fwriad i agor canolfan debyg yn Llundain i werthu catalogau arddangosfeydd a chyhoeddiadau celf y rhanbarthau.

YR WYTHNOS GYMRAEG

BAILE MHUIRNE
SWYDD CORK
IWERDDON

Pentref a phlwyf bychan yng ngorllewin Cork yw Baile Mhúirne. Mae'n lle bendigedig o braf a'r iaith Wyddeleg yn cael ei siarad yno o hyd.

Cafodd tua ugain o Gymry amser diddorol yno y llynedd, cyfle i ddysgu'r iaith, i weld y wlad oddi amgylch a digon o hwyl gyda'r nos.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r criw sy'n mynd eleni, anfonwch am fwy o fanylion at—

Barra O Tóibín, 33 Clare Street, Riverside, Caerdydd.

Ceisiwch wneud hyn cyn Mai 12 fed, er mwyn cesiso sicrhau y telerau gorau.

GOLYGYDDOL

Erbyn hyn fe ddylai pum mil o leia' o Gymry y cylch fod wedi darllen rhifyn cyntaf 'Y Dinesydd'. Cafwyd nifer o lythyrau caredig gan ddarllenwyr ac awgrymiadau diddorol gan ambell un.

Gan mai papur newydd lleol yw 'Y Dinesydd' yna rhaid rhoi pwyslais ar newyddion, a llenwi bylchau wedyn gyda deunydd arall. Fel canlyniad bu'n rhaid gadael nifer o straeon ac erthyglau allan unwaith eto.

Y perygl mawr gyda newyddiadur o'r fath yw iddo hwyrach fynd yn or lenyddol neu iddo wasanaethu rhyw garfan arbennig o'r gymdeithas. Rhaid gochel rhag i hyn ddigwydd ac mae'r gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r darllenwyr yn ogystal â'r Bwrdd Golygyddol. Ni allwn greu newyddion na gorfodi neb i ysgrifennu ond mawr obeithiwn y bydd 'Y Dinesydd' yn bapur fydd a rhywbeth o ddiddordeb i bawb ynddo.

Felly, cofiwch anfon eich newyddion, straeon, llythyrau ac erthyglau erbyn tua'r 15 fed o bob mis, at

Norman Williams, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, Caerdydd.

APÊL AM ARIAN

Gair i atgoffa'r rhai hynny o ddarllenwyr 'Y Dinesydd' nad ydynt eto wedi dychwelyd yr archebau Banc a anfonwyd atynt fel rhan o'r apêl am Noddwyr cyson i'r fenter. Os oes rhai ohonoch yn barod i fod yn Noddwyr—golygai hyn gyfrannu *lleiafswm o £10* dros gyfnod o *bum* mlynedd—gwahoddir hwy i anfon am ffurflen at Meredydd Evans, 81, Heol Shirley, Parc y Rhath, Caerdydd.

Apeliwn yn daer hefyd at ddarllenwyr i danysgrifio £1 am ddeg rhifyn. Mae mawr angen am gymorth oddi wrth bob darllenydd. Anfoner y tanysgrifiadau i Alun Jones, Cefn Coed Gardens, Cyncoed, Caerdydd.

TANYSGRIFIAD BLYNYDDOL I'R DINESYDD

Carwn danysgrifio UN BUNT am ddeg rhifyn o'r DINESYDD, gyda'r ddealltwriaeth fy mod yn cyfrannu o'r newydd ar gyfer pob deg rhifyn a dderbyniaf. Ymhen blwyddyn i'r mis hwn disgwyliaf ichwi fy atgoffa, trwy golofnau Y DINESYDD, am adnewyddu fy nhanysgrifiad.

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

MIS: _____ **BLWYDDYN:** _____

Anfoner pob tanysgrifiad i: ALUN JONES,
(CRONFA'R DINESYDD)
27, CEFN COED GDNS.,
CYNCOED, CAERDYDD.

DOSBARTHU
'Y DINESYDD'

'Dyw cynhyrchu papur fel *Y Dinesydd* ddim yn ddigon ynddo'i hun, heb sicrhau fod y papur yn cyrraedd yn ddidrafferth at y darllenwyr, h.y., fod y broses o ddosbarthu yn un effeithiol. Hoffem ni felly, fel aelodau'r Grŵp Dosbarthu, awgrymu un neu ddau o bwyntiau i sicrhau fod dosbarthu'r papur yn broses llyfn, effeithiol a fydd yn gwella o rifyn i rifyn.

1. At bawb yn gyffredinol: os daw mwy nag un copi o'r papur i'r tŷ am ryw reswm, peidiwch a chadw'r copiau ychwanegol, ond gwnewch eich gorau i'w dosbarthu i bobl sydd heb ei gael, yn eich stryd, yn y gwaith, yn ystafell-aros eich meddyg neu'ch deintydd, i sicrhau fod mwy a mwy o bobl yn cael cyfle i weld y papur.

2. At y Noddwyr a'r Tanysgrifwyr: mae apêl wedi mynd allan atoch eisoes i chi geisio cael eich copiau drwy'r sianeli arferol, e.e. drwy gymdeithasau a chapeli, ysgolion a chanolfannau cymdeithasol, siopau ac ati (Mae gan Siop y Triban, Lears a Siop yr SPCK gopiau bob mis.) Ymgais i arbed arian yw hon wrth gwrs, gan y gallai costau post *Y Dinesydd* redeg i gannoedd o bunnau y flwyddyn pe danfonid y papur drwy'r post bob mis at bob noddwr a thanysgrifiwr. Ond os oes yna unrhywun sy'n cael anhawster gwirioneddol i gael copi, danfonwch ataf (cyfeiriad isod) ac fe wnaf yn siwr eich bod yn cael copi i'r tŷ.

3. At y Dosbarthwyr: a wnewch chi sicrhau fod y papurau'n mynd allan yn syth, cyn gynted ag y cewch chi eich copiau oddi wrth y Grŵp Dosbarthu? Yn ddelfrydol dylai fod modd sicrhau fod pob darllenydd wedi cael ei gopi o'r *Dinesydd* o fewn rhyw dridiau wedi i'r papur ymddangos.

4. Os oes nifer o Gymry Cymraeg sy'n gweithio yn yr un swyddfa neu'r un sefydliad, ac a hoffai gael copiau drwy'r gwaith, wnewch chi roi gwybod i mi (gan nodi faint o gopiau y bydd eu hangen) ac fe sicrhaf fod copiau'n cael eu danfon yno. Llawer o ddiolch.

Dim ond drwy eich cydweithrediad chi, y darllenwyr, y gellir sicrhau dosbarthu *Y Dinesydd* yn eang ac yn effeithiol: byddwn yn ddiolchgar iawn felly am bob awgrym a phob cymorth y gellwch ei roi i ni. Danfonwch at:
Siân Edwards, 20, Heol Maryport, Parc y Rhath, Caerdydd, neu ffoniwch Caerdydd 32722 (yn ystod oriau gwaith).

Wyddech Chi?

Fod clinig i blant Cymraeg yn Ysbyty Ddeintyddol Cymru, Y Waun, a bod croeso ichi drefnu apwyntiad i'ch plant yno?
Fod Carrefour, Caerffili, yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg?
Cyngor y Ddinas yn cyflogi un clerc yn unswydd i ymwneud â gohebiaeth yn Gymraeg?
Mai Cymry Cymraeg yw rheolwyr Boots, Heol y Frenhines a W. H. Smith, y Stryd Fawr, yn osgytal â llu o reolwyr banc, etc?
Mai Cymro Cymraeg yw perchenog a rheolwr y caffe bach hyfryd ar yr ynys ger Llyfrgell y Ddinas?
Fod yna bron fwy o Sinëg na Chymraeg i'w weld yng Nghaerdydd?
Fod yna Fwyty Sineaidd o'r enw "Dai Hong"?
Fod Heol y Gadeirlan yn haws i'w ddweud na Heol yr Eglwys Gadeiriol, ac nad Heol y Santes Fair, ond yn hytrach Heol Eglwys Fair yw St. Mary Street?
Nad yw'n awyrborth yn Y Rhŵs yn fodlon derbyn arian Gwyddelig na'i gyfnewid chwaith, er mai o Ddulyn y daeth awyrenau tramor gyntaf atom?

Ysgol Howell Llandaf *

Ar yr olwg gynta mae'n anodd gweld cysylltiad rhwng marsiandwr cefnog yn nechrau'r unfed ganrif ar bymtheg a ddiweddodd ei oes yn Sbaen, a dwy ysgol breswyl i ferched yng Nghymru. Y marsiandïwr oedd Thomas Howell, neu, a rhoi iddo'i achau'n llawn, Thomas ap John ap Howel ap Rhys ap Howel Grono, ac mae hynny'n ddigon i awgrymu mai Cymro oedd y gwron, a'r ddwy ysgol wrth gwrs yw'r ddwy Ysgol Howell yn Ninbych a Llandaf.

Yn y gyfrol *Thomas Howell and the School at Llandaff* ceir stori gyffrous a difyr a fydd yn apelio at gynulleidfa eang, yn hytrach nag at bobl sy â chysylltiad â'r ysgolion. Roedd Thomas Howell yn amlwg yn ŵr diddorol a wnaeth ffortiwn iddo'i hun ar gyfnod cythryblus mewn hanes ac mae'r rhan yma o'r gyfrol yn rhoi darlun rhamantus i ni. Ond yn ei ewyllys fe adawodd Thomas Howell ddeuddeg mil duged ar gyfer merched amddifad o deuluoedd da i'w cynorthwyo i gyflawni yr hyn a fyddai wedi bod yn bosib iddyn nhw pe na chollasent un o'i rhieni. Mae cyfran nesa'r llyfr yn trafod sut y deliodd yr Ymddiriedolwyr, sef *The Draper's Company of London* â'r llu o geisiadau am gymorth oddi wrth bob math ar ferched, a'r trafferthion di-ri a ddaeth yn sgil hyn, nes yn y diwedd, dri chan mlynedd yn ddiweddarach, dyma benderfynu sefydlu dwy ysgol ar gyfer merched amddifad o dras.

Mae gweddill y gyfrol yn olrhain sefydlu'r ysgolion ac yn sôn am ddeng mlynedd ar hugain gynta Ysgol Llandaf, o 1860 i 1890, cynllunio'r adeilad, y dodrefnu, y rheolwyr, y merched a wnaeth gais am gael eu derbyn yno, ac yn bennaf efallai y ddwy Brifathrawes hollol anhygoel a fu'n gyfrifol am osod y sylfeini yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'n ddogfen hanesyddol hynod o werthfawr ac rwy'n sicr y bydd llawer yn cael blas ar ddarllen y stori, a rhyfeddu at fenter a gwelediad a phenderfyniad ambell wraig dros ganrif yn ôl.

**Thomas Howell and the School at Llandaff 1860 to 1890*, J. E. McCann, D. Brown & Sons, £2.75.*

SIOE FLODAU CYNCOED

A feddylioch chi erioed y buasai Kate Roberts, Shirley Bassey, Rachel Thomas a'r Santes Melangell, dyweder, yn medru mwynhau cwmni 'i gilydd am dridiau cyfan, a dal i wenu'n braf yr holl amser? Neu y byddai gan Jemeima Niclas a Charlotte Guest rhyw sgwrs yn gyffredin rhyngddyn? Tewch a rwdlan, meddech chi. Ond gan mai 'Merched Cymru' oedd thema arddangosfa wanwyn Cymdeithas Flodau Cyncoed eleni dyma'r sefyllfa ar-y-cyd a gafwyd yn Neuadd Traherne, Penylan, a honno'n sefyllfa hynod o liwgar ac effeithiol.

Dehonglwyd rhyw dri dwsin o wragedd, o ferched y Mabinogion hyd at Fenyw Fach Cydweli a Beti Bwt mewn portread blodau a oedd yn ddigon o ryfeddod. Does dim dwywaith nad oes i'r gelfyddyd hon ei lle ei hun yng nghanol ein crefftau creadigol cyfoes.

Felly na wfftied y gŵr pan fo'u gwragedd yn mynd allan liw nos i drin blodau y gaea nesa'—hwyrach, pwy a ŵyr, bod 'na artist arbennig yn blodeuo ar yr aelwyd.

Llongyfarchiadau i wragedd Cyncoed ar lwyddiant y fenter ac am y cyfraniad hael i Gymdeithas Spina Bifida.

CARAFAN MEWN CWR O FYNYDD

Oes gennych chi garafan? Os nad oes—wel, prynwch un. Os oes, beth am ymuno â Chymdeithas Carafanwyr Cymru? A be' di honno? medde chi. Wel, cymdeithas o deuluoedd ar olwynion, sy'n talu punt o dâl aelodaeth y flwyddyn. Am y bunt mae'n nhw'n cael cerdyn aelodaeth sy'n cynnwys manylion am y deuddeng rali penwythnos sydd wedi'u trefnu rhwng nawr a mis Tachwedd. Ie, mis Tachwedd pan fyddwn ni'n cael Rali Tân Gwyllt yn Sir Drefaldwyn. Fe gewch hefyd fathodyn y gymdeithas — llun draig goch yn tynnu siandri,—a chopi o'n papur newydd 'Y Nomad'. Anfonwch am fanylion at Ron Owen, 44 Uplands Crescent, Llandoch, Penarth.

PRIODI

Dydd Sadwrn, Ebrill 21ain, priodwyd Betty Bundock a David Hywel Evans yng Nghapel Undodaidd Allt y Blaca. Merch o Lanwnen yw Betty, sy'n Gynorthwywyr - Cynhyrchydd gyda BBC Cymru yng Nghaerdydd. Y mae David yn dod o'r Garnant, Dyffryn Aman, ac yn athro yn Ysgol Gynradd Llysfaen.

PEDWAR PLEIDIWR, DAU DORI, A 30 "DON'T KNOWS".

POPETH AR GYFER Y TY

Ers tro'r ganrif bu DAN EVANS a'i gwmni yn cyflenwi anghenion ar gyfer y cartref. Mewn cyfres o hysbysiadau yn "Y Dinesydd" byddwn yn amlinellu rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig

Dan Evans

Y Siop i bob aelod o'r teulu
Tel. Y Barri 4242

ERYR MEWN COBAN SIDAN

Be wnaech chi efo tri chanllath o sidan parashiwt? (Ar wahan, wrth gwrs, i ddwy neu dair o barashiwtiau). Fe allech wneud yn wnaeth na'i ddefnyddio i lunio gwisgoedd ar gyfer y cynhyrchiad diweddaraf o stori Lleu a Blodeuwedd. Dyna a wnaeth Anna Steiner a dwy ferch arall ddiwyd a fu wrthi am dair wythnos gyfa yn mesur, torri, lliwio a gwnio ar gyfer cyflwyniad Cwmni Theatr Cymru o "Lleu—Divine Warrior" (Gweler 'Triawd y Mabinogi', Y Dinesydd Ebrill).

Dyma'r trydydd tro i Anna Steiner gynllunio gwisgoedd ar gyfer Cwmni Theatr Cymru. Hi fu'n gyfrifol am y gwisgoedd i "A Christmas Carol", "Culhwch and Olwen", ac "A Cunning Widow" ac ym Mis Mawrth eleni fe gafodd wahoddiad i gynllunio gwisgoedd ar gyfer "Fourth World",—drama newydd gan David Caute (Cynhyrchiad Nos Sul yn theatr y Royal Court, Llundain). Mae'n mwynhau gweithio gyda'r Cwmni Theatr Cymru ac mae'n wynebu bob cynhyrchiad gyda her wahanol. Ei phroblem fwya gyda'r cynhyrchiad hwn oedd cyfleu'r naws chwedlonol ac ysgafnder y byd adar a'r blodau gwylltion a dyma pam y dewisiodd ddefnydd sidan,—yr agosaf ei ansawdd i blu a phetalau a phethau felly. Does dim angen y tri chanllath ar gyfer y saith gwisg i'r prif gymeriadau wrth gwrs ac fe welir y gweddill yn hongian ar hyd waliau'r theatr i helpu i gyfleu'r naws hudolus priodol ar gyfer cyflwyniad o'r fath

Problem arall a wynebai cynllunydd y cyflwyniad hwn oedd gwneud mygydau i aelodau pluog y cast ond yn ffodus iawn fe ddaeth cynnig gwirfoddol gan fyfyriwr ail flwyddyn Coleg Celf Caerdydd,—Ruth Charleton, i fod yn gyfrifol am gynllunio a gwneud y mygydau.

Mae'n amlwg, felly, bod cryn ddiwydrwydd tu ôl i'r cynhyrchiad hwn a'r peth lleiaf a allwn ni'r cyhoedd ei wneud yw ei gefnogi. Mae "Lleu—Divine Warrior" yn theatr Stiwdio'r Casson (Am 8 o'r gloch bob nos) tan y 12fed o Fai.

Dosbarthiadau Cymraeg
Os gwyddoch am unrhyw un sy'n dymuno dysgu Cymraeg, neu sydd wedi dechrau dysgu, ac yn dymuno bod yn rhan o grŵp newydd ynglŷn â Sefydliad Cymru, gofynwch iddo/iddi gysylltu â
Mrs Bartlett,
79F Celyn Avenue,
Lakeside, Caerdydd
CF2 6ED

DALIWCH ATI DDYSGWYR

Dim ond rhyw bump wythnos sydd ar ôl, erbyn hyn o'r flwyddyn yn yr ysgolion nos ac i lawer o bobl dyna fydd diwedd eu blwyddyn gyntaf o ddysgu Cymraeg. Tybed ydych chi wedi mwynhau mynd i'r dosbarthiadau nos, oeddech chi'n hoffi'r athro ac yn fwy pwysig byth ydych chi wedi dysgu llawer o Gymraeg? Mae'n bosibl eich bod yn siomedig iawn ar ddiwedd blwyddyn. "Rydw i wedi bod yn dysgu am flwyddyn" meddai un person wrthyf y dydd o'r blaen a dydw i ddim yn gallu deall un rhaglen deledu na radio eto, a bob tro mae rhywun yn siarad Cymraeg gyda fi rydw i'n mynd yn goch i gyd." Wrth gwrs, mae person fel yna yn disgwyl "gwyrth"—miracle. Does neb yn gallu dysgu'r iaith yn "gyfangwbl"—completely, mewn blwyddyn. Mae tua tri chwarter o ddosbarthiadau dysgu Cymraeg ein prif—ddinas yn ddosbarthiadau blwyddyn gyntaf. O dyna drueni mawr. Mae gormod o Ddysgwyr yn *rhoi'r ffidil yn y to* ar ôl dim ond un blwyddyn. Gwastraff mawr iawn ar eich amser chi ac ar amser yr athro. *Mae'n rhaid dal ati,* os ydych chi eisiau "Croesi'r Bont". Mae'n bosibl fod llawer o ddysgwyr hanner ffordd ar draws y bont ac yn atal unrhyw un arall rhag croesi—"A language traffic jam"—yn Gymraeg Jam Traffig leithyddol.

Rydw i wedi bod yn gwneud rhestr yn ddiweddar o'r gwahanol resymau pam mae pobl Caerdydd eisiau dysgu Cymraeg—dyma rai i chi.

1. Rydw i eisiau i fy mhlentyn i fynd i Fryntaf ac yna i Rhydfelen, ac rydw i eisiau ei helpu.
2. Mae fy ngwr/ngwraig yn siarad Cymraeg ac fe fyddwn i'n hoffi hefyd.
3. Rydw i wedi prynu bwthyn haf yn Sir Aberteifi ac mae pawb yn y pentref yn siarad Cymraeg, felly rhaid i fi.
4. Rydw i eisiau gweithio ar y B.B.C.—O
5. Rydw i'n credu yng Nghymdeithas yr Iaith ac rydw i eisiau bod yn aelod.
6. Rydw i'n caru merch sy'n siarad Cymraeg ac mae hi eisiau i fi ddysgu.
7. Rydw i wedi methu ffeindio gwraig sy'n siarad Saesneg sy'n ddigon da i fi, felly falle y byddaf i'n fwy lwcus mewn dosbarth Cymraeg. (Fe ffeindiais y rheswm yma yn un o ddosbarthiadau nos Llanishen)
8. Rydw i eisiau bod yn wahanol i rai aelodau seneddol Caerdydd.
9. Rydw i eisiau mynd i weithio fel swyddog yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog a Glanllyn.
10. Am FY MOD YN GYMRO AC YN BYW YNG NGHYMRU.

Ie dyna reswm da—mor syml ac mor amlwg. Pan mae rhywun yn dweud y rheswm yna wrthyf rydw i'n meddwl—Wel pam nag yw pawb yng Nghymru yn cesio siarad?

Mae'r toriad yn yr haf yn hir felly cofiwch ddal i fyny gyda'r gwaith. Mae digon o bethau ymlaen i'ch helpu. Mae Cymdeithas y Dysgwyr yn trefnu rhaglen dda am yr haf. Mae lle ar ddau gwrs Carlam o hyd—Coleg Harlech a Choleg Prifysgol Cymru, Bangor. Os ydych yn ifanc (o dan 50) ac yn teimlo eich bod yn gallu siarad tipyn o Gymraeg erbyn hyn, beth am fynd fel swyddog i Langrannog am wythnos—dyna le da i gael digon o ymarfer—ysgrifenwch at Y Pennaeth, Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Sir Aberteifi. Cofiwch! Daliwch Ati a peidiwch rhoi'r ffidil yn y to.—Don't give up.

JOHN ALBERT EVANS

Park Hotel
PARK HOTEL
PARK PLACE
CAERDYDD
CF1 3UD
☎ 23471

★ Un o brif westai canol dinas Caerdydd.
★ Cyfleusterau ardderchog ar gyfer cynadleddau, prydiau bwyd a chyfarfodydd busnes ar gyfer 30 neu 400.
★ 97 o ystafelloedd gwlau cyfforddus nifer gyda stafell ymolchi preifat.
★ Ystafell grill a phrif ystafell fwyd yn cynnig dewis o fwydydd da.
★ Cyfleusterau bar.

Beth yw digwyddiadau'r wythnos?
ffoniwch Caerdydd
397676

TEISAN GARTRE'

Dim llawer o fynadd yn y gegin? Wel, dydw i'n gweld dim bai arnoch chi, yn enwedig pan mae'r gŵr yn eistedd a'i draed i fyny o flaen tân rydych chi wedi'i wneud, yn darllan papur newydd isel ei chwaeth, neu'n waeth fyth yn gwylio pêl-droed neu reslo. Eto, mae'n braf cael cacen gartre, yn enwedig gan fod rhai'r siop mor ddiflas ac mor ddrud yn enwedig ar ôl Ebrill laf—ond yr *amser* **a'r** *drafferth.*

Wel, peidiwch a phoeni achos dyma rysêt teisen flasus a hawdd iawn i'w gwneud. Yn gyntaf dodwch chwarter peint o dê oer mewn basn (mae gan bob Cymraes werth ei halen dê yn y tebot ar bron bob awr o'r dydd!) yna dodwch dri chwarter pwys o ffrwythau cymysg yn wlych yn y te am tua awr (dyna ddigon o amser i chi ymuno â'r gwr wrth y pentan!). Yna ar ôl dodi hanner pwys o flawd a chwarter o siwgr castor mewn powlen a'u cymysgu, ychwanegwch y ffrwythau a'r tê, ag un ŵy wedi ei guro a chymysgwch y cyfan. Dodwch y gymysgedd mewn tun pobi hirsgwar a'i goginio am tua awr a hanner yng nghanol pobty cymharol boeth (Reg. 4) a dyna i chi'r deisen flasusa fuo rhwng eich gweflau erioed. Mae'n fendigedig wedi ei thorri'n weddol denau gyda menyn arni—peth tebyca 'rioed i gacen frith a deud y gwir.

Ond dydw i ddim wedi gorffen eto achos mae'n bosibl arbed mwy o amser fyth. Gellwch wneud dwy deisen yr un pryd, achos mae hon yn flasus iawn ar ôl ei chadw am ryw wythnos neu ragor. Un awgrym bach cyn mynd. Gwnewch y deisen tra mae eich gŵr yn golchi'r llestri. Ia, does dim byd gwaeth na golchi powleni a llwyau yn llawn cymysgedd.

Cofiwch ddarllen y Dinesydd yn rheolaidd; efallai y bydd gen i ragor o syniadau i wneud eich bywyd yn y gegin yn haws i'w fyw.

BETW

CYMDEITHAS RHIENI BRYNTAF

Nid oes angen pwysleisio cyfraniad Ysgol Bryntaf i Gymreictod Caerdydd a'r cylch. O'i chynnyrch, fe borthir Rhydfelen, ac yn ei chysgod, fe dyfodd mudiad yr ysgolion meithrin. Mawr yw ein dyled i'r Prifathrawon a'r athrawon a fu'n gweini yno ar hyd y blynyddoedd.

Serch hynny, efallai mai gweddus yw atgoffa'n hunain am gyfraniad pwysig y Gymdeithas Rhieni i ffyniant yr ysgol. Yn wir, y mae'n debyg mai cymdeithas o rieni Cymraeg Caerdydd, diolch iddynt, a bwysodd ar yr awdurdod addysg i sefydlu'r ysgol yn y lle cyntaf. Erbyn heddiw, baich mwya'r gymdeithas yw codi tua £3000 y flwyddyn i gyfrannu at gost cludo'r plant i'r ysgol. Pe methwn yn hyn o beth, mi fyddai bodolaeth yr ysgol mewn perygl, ac ym marn llawer ohonom, mi fyddai bywyd y Brifddinas yn dlotach.

Carwn felly, fanteisio ar y cyfle yma, drwy golofnau'r fenter newydd hon i apelio at bawb sy'n caru Bryntaf i gefnogi 'i chymdeithas rhieni. O bryd i'w gilydd, fe fydd manylion am weithgareddau'r gymdeithas yn ymddangos yn y papur newydd yma.

Llywydd:
Y Parch Gwilym ap Robert,
223, King George V Drive,
Caerdydd.

Is-Lywydd:
Arfon Williams,
31, Heol Don,
Yr Eglwys Newydd.

Trysorydd:
Alun Jones,
27, Cefn Coed Gardens.

Ysgrifennydd:
Eurig Davies,
57, Highfields, Llandaf.

SYMUD TŶ

Croeso i Riwbeina

—i Gwyn a Mari Price (Rhiwbeina) a'r teulu, a Tomos ac Eirwen Davies, (Heath) a'r teulu wrth symud i Landaf i fyw.

Dau o gynhyrchwyr y BBC yw'r ddeuddyn—does ryfedd bod gan Landaf atyniad. Etifeddu hen aelwyd Aneurin Talfan Davies wnaeth Gareth a Mari—da gweld Aneurin Talfan yn gwella digon i allu ail gychwyn ysgrifennu, a siarad yn gyhoeddus.

Y mae'r Dafisiaid wedi penderfynu galw eu tŷ yn Highfields yn 'Penychen'—sef yr hen enw Cymraeg ar y cwmwd rhwng afon Ddawan ac afon Taf.

Erbyn hyn mae Mr a Mrs Griffith Williams (Marion Eames) wedi gwreiddio yng Nglas Coed-y-Brain, Llandaf ar ôl symud o'u bwthyn yn y Fro.

GWASANAETH CYMRAEG ARALL

Mae Capel Efengylaidd yr Heath yn bwriadu cychwyn oedfa Gymraeg bob prynhawn Sul, o 2.45 p.m.-3.45 p.m. Croeso cynnes i'r Cymry.

OZ HOFFECH WYBOD

Fe ddaw cyfle arall i weld y stori adnabyddus "The Wizard of Oz" pan ddangosir y ffilm yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter Nos Wener, Mai 11eg. Ceir dangosiad cynnar (am 5 o'r gloch) i blant yn unig ac yna am 10.30, cyfle i'r rhieni (neu ddarpar-rieni) i'w hatgoffa eu hunain o anturiaethau'r Dewin, Y Bwgan Brain, Y Widdan, y Dyn Tun a'r Llew (sy'n gwneud ei orau i geisio ymddangos yn ddewr). Mewn cyfnod pan nad yw'r mwyafrif o'r ffilmiau yn y sinemau at ddant pawb, dyma gyfle i ymgolli ym myd y Tylwyth Teg.

Ac i'r rhai hynny sy'n ymddiddori yn hanes y diwydiant mae'n werth sylwi fel y mae'r lliw yn y ffilm hon, a oedd yn beth go newydd pan saethwyd hi, erbyn hyn yn ymddangos braidd yn llachar ond mae'n haws ei dderbyn mewn ffilm o'r math yma nag mewn llawer math arall. Diddorol hefyd yw sylwi mai, o'r holl ffilmiau a gyfarwyddodd Vincent Fleming, hon a "Gone With The Wind" yw'r ddwy sy'n aros yn y cof amlycaf ac yn rhyfedd iawn daw'r ddwy o'r un flwyddyn (1939).

GWENT CAR HIRE

Ceir, Faniau, Tryciau, Bysiau Bychain
Am awr, am ddiwrnod, am wythnos

Caerdydd Tel. 43151/2
Penybont Tel. 2719
Abertawe Tel. 53169
Aberdâr Tel. 2964
Casnewydd Tel. 55004
Pontypridd Tel. 402410
Barri Tel. 77030
Ystrad Mynach Tel. 812112

Pob llwyddiant i

Y Dinesydd

Ty Mamaeth 'Cartref'
Cartref Nursing Home
Plymouth
Penarth

MAES Y PLANT

Fe fydd y rhai hynny ohonoch chi sy'n mynd i Ysgol Gymraeg Bryn-taf yn adnabod y cymeriad hwn. Huw Jenkins! Ac mae gan Huw hobi ddiddorol sef tynnu lluniau. Rwy i wedi gweld rhai ohonyn nhw ac maen nhw'n wirioneddol dda. Ac fel pob ffotograffydd da, mae gan Huw lygad at fargen. Fe all camera da gostio llawer o arian (ac mae arian plant bob amser yn brin) ond fe ellwch daro ar fargen mewn siop all law. Camera ail law sy gan Huw, sef Regula 35mm. Os na wyddoch chi beth yw 35mm, gofynnwch i dadi. Os na fydd dadi'n gwybod, gofynnwch i mami. Sut bynnag, pe baech chi'n prynu hwn mewn siop, fe gostiai £15 i chi, ond fe gafodd Huw e'n ail law am £3.50.

HWYL HAMDDEN

Oes hobi gennych chi? Os oes e, anfonwch wybod i mi, ac fe gaiff holl blant Caerdydd a'r cylch wybod amdani. Dyna un o dasgau'r Dinesydd—denu plant y ddinas a'r cylch i ddod i adnabod ei gilydd yn well.

NAWR PÔS

Llun o beth ydy e? Neu, ble o gwmpas Caerdydd y mae'r adeilad diddorol hwn? Ac y mae yn adeilad diddorol. A'r enw arno fe yw tollborth. Mae na glwyd yn ei ymyl e, a slawer dydd, fe fyddai rhaid i bobl dalu swm o arian i geidwad y tollborth cyn y caen nhw fynd drwy'r glwyd a fyddai wedi'i gosod yn groes i'r ffordd. Dim ond i chi graffu ar y llun, fe fedrwch chi weld faint fyddai'r bobl yn gorfod dalu. Ac os carech chi weld y tollborth yma, rhaid ichi fynd i Amgueddfa Werin Sain Ffagan. A dyna'r ateb i'r pôs.

TRYCHINEB

Mae M15 wedi darganfod ein côd ni, a rhaid inni gael un newydd. Rhag ofn i rai ohonoch chi fethu cael yr ail un, dyma sut y mae ei dorri fe. Y côd i ddechrau—dyma fe,

IMDS NDOR LANTPO ADI LLAW ARLLENDDS YC EGESNW ONHI Rhaid ei dorri fel hyn,

a) Dileu neu groesi allan lythyren olaf pob gair.

b) Rhoi llythyren y gwt (h.y. y llythyren sy ar ôl yn y gwt) ar ddechrau'r gair, a dyna ni'n cael: *Dim ond plant da all ddarllen y neges hon.*

CÔD NEWYDD SBON

OESN EBY ND YSGUD IMM EWNY SGOLD

(Wedi ichi ddatrys y côd, anfonwch wybod i mi— ac fe anfonaf yr ateb i ddítectydd sy wedi umuno â'r DINESYDD. Dyma'i lun e i chi) A mae e wedi anfon problem i chi i'w datrys. Dyma hi

Problem y ditectydd
SAM SLIC

Rown i yn Ysgol Gymraeg Bryn-taf ddoe, ac fe es i i'r dosbarth i weld y plant yn arlunio. Roedd Mair a Siân a Bethan yn peintio llun ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ac roedd smotyn o baent coch ar flaen trwyn pob un. A dyma fi'n meddwl!

Wedi clywed fod plant Bryn-taf yn rhai clyfar iawn!

Siawns i weld! A dyma fi'n dweud,

"Pob un ohonoch chi, edrychwch ar eich gilydd. Os gwelwch chi smotyn o baent coch ar drwyn un o'ch ffrindiau, codwch eich llaw dde."

A dyma'r dair yn codi llaw dde.

A dyma'r ail gwestiwn yn dod! Cwestiwn slic Sam Slic!

"Os ych chi'n siŵr a oes paent coch neu beidio ar eich trwyn chi, rhowch eich llaw lawr."

A dyma law Siân i lawr, a medde hi, "Rwy'n gwybod fod paent coch ar 'y nhrwyn i."

Nawr, sut y gwydde hi? Fe gewch chi'r ateb ar ddiwedd y tudalen!

****

JÔC

Mair yn dod adre o'r ysgol ar ôl treulio'i diwrnod cynta yno. Mami'n llawn cwestiynau ac yn holi,

"Wel Mair fach, ddysgaist ti rywbeth?"

"Naddo, mami, gorfod mynd nôl fory eto!"

****

PROBLEM

Pe bai deg darn deg yn UN o bocedi'ch cot, dau ddarn deg mewn poced arall, papur punt mewn poced arall, a thri darn hanner can ceiniog mewn poced arall, beth fyddai gyda chi?

Cot rhywun arall!!

ATEB I BROBLEM SAM SLIC

Fe fedre Siân weld smotyn o baent coch ar drwynau Mair a Bethan, a dyma hi'n meddwl—a mae plant clyfar bob amser yn meddwl—"Esgus nad oes dim paent ar 'y nhrwyn i" Fe fydde Mair yn gwybod fod llaw Bethan i fyny am fod Bethan yn gweld paent coch ar 'i thrwyn hi, ac fe fydde Bethan yn gwybod fod llaw Mair i fyny am 'i bod hi'n gweld paent coch ar 'i thrwyn hi. Ond dydyn nhw ddim yn gwybod—dyfalu y maen nhw, achos pe baen nhw'n gwybod fe fydden nhw'n rhoi eu dwylo i lawr. Felly, mae'n rhaid bod paent coch ar ' y nhrwyn i."

TORRI SYCHED

Mae hi'n gallu bod yn od o boeth ym Mai o dro i dro. Rhag ofn y gall y Mai yma fod yn boeth, dyma ichi syniad am rywbeth i dorri syched. Fe gefais i e gan Angharad Dafydd—felly, os byddwch chi'n meddwi ar ôl ei yfed e, peidiwch â rhoi'r bai arna i! Fe fyddwch chi eisiau,

Gwydraid o laeth oer
Llwyaid o hufen iâ (blas mefus)
Suddog mefus (fe fydda'r Saeson yn galw suddog yn syrup)
Dyma sut mae gwneud,

Rhowch y llaeth a'r hufen iâ a'r suddog mewn basin a'u cymysgu'n drwyadl nes bod y cyfan yn ysgafn. Yna'i arllwys i wydryn tal. Wedyn . . . yfwch e!

Blant. Cofiwch anfon atebion i'r côd ac unrhyw wybodaoth arall at—W. J. Jones, 46 Crystal Wood Road, Caerdydd.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Amgueddfa Werin Cymru

SAIN FFAGAN

Teleffon Caerdydd 561357-8

Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlân Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre 'rywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru. Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith ac os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch gael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

* Mynediad: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
  Pensiynwyr a phlant (o dan 16) 5c

Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw

* Maes Parcio: Bysiau 15c Ceir Preifat 10c Beiciau Modur 5c
* Dyddiau'r wythnos: Ebrill-Medi—10 a.m.-7 p.m.
  Hydref-Mawrth—10 a.m.-5 p.m.
* Suliau: Agorir am 2.30 p.m.
* Llawlyfrau (Cymraeg neu Saesneg) ar gael am 10c yr un (16c trwy'r post)

Caeir dydd cyn y Nadolig, dydd Nadolig, trannoeth y Nadolig a Dydd Calan.

CÔR POLIFFONIG CAERDYDD

GYDA CHERDDORFA

Arweinydd—Roy Bohana

MESSIAH

Handel

Eglwys Gadeiriol Llandaf

Mai 12, am 7.30 p.m.

Tocynnau—£1.25, £1 a 60c.n.

Dylid anfon am docynnau at:

J. Mervyn Williams,
Rheolwr,
Côr Poliffonig Caerdydd,
"Argoed",
Craig Penllin,
Y Bontfaen.

Ffôn—Y Bontfaen 3623

COFIWCH !

ETHOLIAD CYNGOR

•

CYNGOR ARDAL CAERDYDD

•

MAI 10fed

A PHLEIDLEISIWCH !

Heol Knox

Mae yna sefydliad pwysig yng nghanol ein prifddinas, sy'n tarddu o'r ganrif ddiwethaf ac yn dechrau dangos hynny, sy'n adeilad o bwys mawr a lle mae yna Gymry Cymraeg a di-Gymraeg o bob enwad yn cydfyw heb ymdderu na ffraeo gormod. Mae yno gangen o rieni Ysgol Bryn Taf, a bu nifer o enwogion y genedl yn aros yno. Clwb y Cymry, meddech chi, neu gapel cydenwadol a llety'n sownd wrtho, neu Westy Cymreig ei naws a'i groeso? Dim o gwbl. Nid lle crefyddol ydi o chwaith, er gwaethed yr enw Knox. Ond math ar westy ydi o sy'n anodd i gael lle ynddo, lle mae Ei Mawrhydi'n talu dros £24 am eich cadw chi mewn anfoethusrwydd cyntefig. Plas y Frenhines, neu'r Carchar, ydi'r lle, ac mae'n un enwog am ei fod, o ran ei adeiladau a'i gyfleusterau materol, yn isel yn y gyngrhair.

O fynd i mewn i'r carchar, y peth sy'n taro dyn ydi mor debyg ydi'r lle i'r hyn mae dyn yn ei hanner-ddisgwyl: rhodfa-gath wedi ei hamgylchynnu'n llwyr â gwifrlen gref a rheseidiau o gelloedd moelion a'u drysau tyllog, barrog, yn cau arni. A thrueniaid y tu fewn, i gyd bron yn rhannu cell, yn gorfod byw a bwyta a charthu i raddau helaeth yn y gell. Ac aroglau bwyd a'r po yn y gongl yn llenwi'r gell gyda'r nos. Mewn ambell gell ceir hanner dwsin o garcharorion. Does dim ffenestri'n agor, dim ond y twll yn y drws, droedfedd wrth droedfedd a hanner, a'r ffynn fertigol yn cloi hwnnw. A chofier, bron yn ddieithriad, mai pobl o un dosbarth, yr un mwya difreintiedig mewn cymdeithas, sy'n eu cael eu hunain yno. Prin yw'r gwŷr proffesiynnol neu'r gwŷr busnes yno, er fod digon o bechaduriaid, dybiwn i, yn eu plith hwythau. Ond lle i drosed-dwyr ydi carchar, ac nid yr un peth ydi troseddwr a pechadur, yn enwedig pechadur cyfoethog neu ddeallus.

Eich dinoethi

Wrth gael eich derbyn fe'ch dinoethir, ac mae rhai'n eich galw'n *was*, neu *fachgen* wedyn. Fe'ch hysbysir ar gerdyn y bydd Caplan Eglwys Loegr (sic) yn eich gweld, ac wedyn fe'ch gwisgir yn nillad neilon, golch-edig, crebachlyd y carchar. Dillad isa anffasiynnol a dim pyjamas. Ond fe gewch fâth ar ôl diwrnod neu wrth gael eich derbyn. Yr ail ddiwrnod fe gofnodir ôl eich bysedd ac fe dynnir eich llun efo hen gamera ar dripod. I'ch cael i edrych yn weddol, fe roir siaced frethyn siec weddol ddi-draul ichi i'w gwisgo a thei. Ac os buoch yn pendronni ryw dro pam mae llun pob carcharor yn gwneud iddo edrych fel trosed-dwr neu ynfytyn neu ddihiryn, yn gegrwth a rhythlyd, yna dyma'r gyfrinach. Fe'ch rhoir i eistedd ar sedd fach efo pren yn rhedeg ar ei thraws a rhwng bochau tin yr eisteddwr, fel na all dindroi ryw lawer. Yna, wrth iddo godi ei ben, fe wêl lun tu ôl i'r swyddog tynnu lluniau, o ferch wen yn egar noeth, yn ystymio'i hunan i gynnig ei chorff i gyd ar blat i lygaid ysol y syllwr. Tra mae dyn un ai'n llarpio'r llun yn feddyliol, neu'n syfrdan gan siom at ddulliau dichellgar yr awdurdodau, neu'n codi i'r berw o gynddaredd a gwaradwydd, fe dynnir y llun. Yna troir y sedd 90 gradd, a chithau, yn anorfod felly, hefo hi. Gan na ellir disgwyl yr un effaith efo llun cyffelyb, aethpwyd i'r drafferth o gael llun o ferch nwydus groenddu, yn cynnig bron ir i lygaid y creadur o garcharor. Hwyrach mai eisio bod yn deg a chadw'r ddysgl yn wastad rhwng y llymru a'r cyrri y mae nhw wedi'r cyfan.

Codi am 6.45

Y peth gwaetha wedyn yw dod i arfer a threfn bywyd y carchar, heb fod neb bron yn eich cyfarwyddo, ond ambell gar-charor yn sibrwd adeg cerdded clasau'r cowt adeg ymarfer corff. Rhaid dod i ddeall mai codi sy fod ar ôl i'r golau gael ei gynnau am tua chwarter i saith, a bod dyn yn cymryd ei siawns wedyn wrth fasnau ymolchi budr i eillio ac ymolch. Mae yna Dŷ bach hanner cyhoeddus lle y ceir rhyw funudau i ddyn geisio cyflawni'r dylestwyddau, cyn mynd yn ôl i'r gell i ddisgwyl am ymweliad cyntaf y Rheolwr, neu'r Caplan priodol, neu'r Swyddog Lles, neu'r perthynas un waith yn y mis cyntaf, neu'r un llythyr yn y mis hwnnw, neu i fynd i weithio, neu i'r cowt, neu i ddisgwyl, a disgwyl am oriau nes iddi ddod yn amser cinio. Yr un peth wedyn, ac ar ôl te, a swper. A does yna 'fawr o lewyrch ar y llyfrgell, heb sôn am brinder llyfrau Cymraeg. Ond mae gan ddyn hawl i fynnu'r Beibl Cymraeg. Mae rhai yn cael gwrando ar y radio a gwylio'r teledu am rai oriau, ond ddim ond yn Saesneg, ac mae sinema unwaith yr wythnos a gemau peldroed.

Dyheu am ddŵr

Yn raddol mae dyn yn dod i ddeall arwyddocâd y gwahanol ffurfwisgoedd. Llwydlas yn gyffredin, efo streipen felen lawr y ddwy goes, tu fewn a thu allan, os ydi dyn wedi ceisio dengid. Top byddinol, du i wŷr

Carchar Caerdydd

Borstal, a dillad brown i'r rhai sy ar Remand.

Mae digon o fwyd yno, ond braidd yn flonegog a chwyd-dedig ydi o: bara gwyn a thatws wedi ei stwnsio'n drag-ywydd, efo te gwan iawn efo'r mymryn lleia o lefrith. Mae rhywun yn mynd i ddyheu am bethau syml fel blas dŵr croyw, neu ddŵr o gwbl ran hynny, am lefrith, ac am ffrwythau.

O rannau o garchar Caerdydd fe ellir gweld entrychydd, llawn gwydr, y Bwrdd Nwy, a'r gair NWY yn fras ar ei ochr yn ei ben ucha, ac fe ddwedir i ambell garcharor ofyn, wedi cael ei ryddhau, am gael mynd i ben yr adeilad i godi'i law ar ei gyn-gymdeithion.

Ond mae unpeth da am garchar Caerdydd. Mae yno nifer o swyddogion dynol eu bryd a'u hymarweddiad. Llawer iawn ohonyn nhw'n Gymry, a chyfran dda yn Gymry Cymraeg. Mae'n nhw'n gwneud gwaith anodd a diflas yn ddynol a gwareiddiedig dan delerau'r gyfundrefn.

Mae peth o'r gwaith yn angenrheidiol, ac ar gyfer hwnnw fe ddylid ail-wampio ac addasu a moderneiddio carchar Caerdydd ar fyrder. Mae'n fater ddylai gael sylw pob un ohonom, ac yn enwedig ein heglwysi.

Harri Pritchard Jones

YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

Ni yw'r arbenigwyr

Sleep & Light Centre

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.
NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

Oherwydd natur y rhan fwyaf o weithgareddau'r Gymdeithas nid yw'n bosibl i roi manylion ein rhaglen am y misoedd nesa ond mae croeso i rywun sy â diddordeb yn ein gweithgarwch i ddod i gysylltiad â Llew ap Gwent yn y cyfeiriad isod.

Serch hynny fe fedrwn ddweud fod Cell Caerdydd yn cynnal dosbarth Cymraeg i ddysgwyr yn eu blwyddyn gynta bob nos Fawrth yn Nhŷ'r Cymry, Heol Gordon. Pe bae galw fe fyddem yn falch o'r cyfle i sefydlu dosbarth arall. Os oes na awgrymiadau rhowch wybod.

Erbyn y daw'r ychydig eiriau hyn i lygad y cyhoedd mae'n sicr y bydd brwydr yr iaith wedi datblygu'n bellach. Erfynwn ar bob Cymro i wneud ei orau yn y frwydr am ddyfodol i Gymru.

Llew ap Gwent
Cysylltwr Cymdeithas yr Iaith yng Nghaerdydd yw:
Llew ap Gwent, 21 Stryd Ryder, Canton, Caerdydd
Mae gan Goleg y Brifysgol gysylltwr sef:
Phil (Bach) Edwards, Undeb y Myfyrwyr, Dumfries Place.

Y COMPIWTAR

Ychydig yn ôl, gwahoddwyd Prif Weinidog Prydain Fawr i'r Unol Daleithiau i weld compiwtar mwya'r byd, ac yn bendant mae'n debyg yr unig gompiwtar proffwydol sy' a gael

Fel prawf o allu'r peiriant gofynnodd Arlywydd yr Amerig iddo pwy neu beth fyddai'n rheoli'r Amerig ymhen canrif ac ar ôl chwythu stêm am bum munud daeth yr ateb—'Comiwnyddion'.

Yn naturiol, roedd hyn yn dipyn o sioc i bawb, a phryderus braidd oedd Prif Weinidog Prydain wrth roi'r un cwestiwn i'r peiriant.

Cyn hir, o grombil y compiwtar, daeth yr ateb i ddwylo'n Prif Weinidog. Edrychodd arno am rai eiliadau cyn dweud—

'Dydw i'n deall dim gair o hwn. Mae o i gyd yn Gymraeg.'

Angen Cymorth! Dynes amyneddgar i warchod dau blentyn 4 a 2 yn ystod y dydd yn achlysurol. Tâl rhesymol. Cludiad. Caerdydd 33721.

HELPU'R HEDDLU

Darganfyddwyd corff tua 650 oed ger Caerdydd y dydd o'r blaen. Nid oes amheuaeth mai gwaith llofrudd yw hyn ac mae'r heddlu yn awyddus i ddod i gysylltiad â dyn rhwng 670 a 700 oed a allai eu cynorthwyo gyda'u ymholiadau.

Urdd Gobaith Cymru

NOFIO NAWDD

Pwll Awyr Agored Caeau Llandaf Caerdydd

Nos Sadwrn, Mehefin 9, 1973

Croeso i bawb. Dewch yn llu

Y CELFYDDYDAU YNG NGHAERDYDD A'R CYLCH

MIS MAI

Llenyddiaeth:
SAMWWA (Cymdeithas Awduron De a Chanolbarth Cymru)
Ysgol Undydd ar Ysgrifennu Creadigol
Y Dyffryn,
Sain Nicolas,
ger CAERDYDD.
Mai 4, 5 a 6
Manylion pellach odd wrth Deryck Howell, 141, Ty Glas, Llanishen, Caerdydd.

Cerddoriaeth
Datganiadau rhyngwladol:
Caerdydd:
Gwyneth Jones, soprano
13 Mai 8.00 p.m.
Theatr Newydd, Caerdydd.
Casnewydd:
Fou Ts'ong, piano
30 Mai 7.30 p.m.
Theatr y Dolman, Casnewydd

Mai 12, 8.00 p.m.
Eglwys Gadeiriol Llandaf.
Cymdeithas Gorawl Llanishen
Arweinydd: Vera Williams-Sadd
Cerddorfa Siambr Gymreig
Gweithiau gan Mozart, Vivaldi, Haydn.
19 Mai, 7.30 p.m.
Eglwys Sant Martin,
Albany Road, Caerdydd.

Cyngherddau'r Brifysgol
Darlith-ddatganiadau
Gyorgy Sandor
Cerddoriaeth gan Prokofieff, Bartok, Liszt
9 Mai, 7.30 p.m.
Ronald Smith
Cerddoriaeth gan Beethoven, Schubert, Chopin ac Alkan
16 Mai, 7.30 p.m.
Ingrid Haebler
Cerddoriaeth Biano
Glasurol Vienna
23 Mai, 7.30 p.m.
Oll yn Theatr Ddarlithio'r Reardon Smith
Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd.
Manylion oddi wrth Goleg y Brifysgol/ Adran Efrydiau Allanol
Caerdydd 44211

Drama:
Cwmni Theatr Cymru
yn cyflwyno
Y TAD A'R MAB
gan John Gwilym Jones
25 Mai
Neuadd Coleg Addysg Cyncoed
Caerdydd

THEATR Y CASSON
Ruby Street, Caerdydd.
LLEU—DIVINE WARRIOR
"Rock Musical"
wedi ei seilio ar stori Lleu a Blodeuwedd.
Hyd 12 Mai, 8.00 p.m.

HAMDDEN

YSGOL BENWYTHNOS
yn
NEUADD Y BRIFYSGOL,
Heol Birchwood, Penylan, Caerdydd, o Orffennaf 6ed hyd yr 8 fed, 1973.

COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD ADRAN EFRYDIAU ALLANOL MEWN CYDWEITHREDIAD A MERCHED Y WAWR
Honnir, yn bur gyffredinol, bod i'r cynnydd mewn oriau hamdden ei fanteision a'i broblemau. Yn y Cwrs hwn trafodir amrywiol ffyrdd o ddefnyddio oriau hamdden yn arwyddocaol a cheisir dangos sut y gall y Pensaer a'r Cynllunydd gynorthwyo pobl i'w sylweddoli. Cynnwys rhestr y Darlithwyr enwau adnabyddus ym myd Addysg ac Adloniant.

RHAGLEN WAITH
Gwener, Gorffennaf 6. 8.00 p.m.
T. V. HUGHES:—
Cynllunio tref a phentref gyda phwyslais arbennig ar Gyfleusterau Cymdeithasol.
Sadwrn, Gorffennaf 7. 9.30 a.m.
MEREDYDD EVANS:—
Hamdden ac Adloniant.
11.00 a.m.
GRWPIAU TRAFOD . . .
ARWEINWYR:—
NIA E. WADDINGTON (Y Celfyddydau)
GWENLYN PARRY a J. GRANVILLE MORGAN (Drama)
GLYN JONES (Cerddoriaeth)
2.00 p.m.
Ymweliad ag Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan.
Yn ystod yr ymweliad ceir darlithiau ar Ganu a Dawnsio Gwerin gan ROY SAER ac ar Rigymau a Storiau Gwerin gan ROBIN GWYNDAF.
8.00 p.m.
GWYN ERFYL JONES a LISA ERFYL JONES:—
Canu Penillion fel un o weithgareddau oriau hamdden.
Sul, Gorffennaf 8. 9.30 a.m.
HYWEL TEIFI EDWARDS:—
Addysg ar gyfer Hamdden.
11.00 a.m.
SEIAT DRAFOD:—
MEREDYDD EVANS,
HYWEL TEIFI EDWARDS a HARRI PRITCHARD JONES.
CADEIRYDD:—
MAIRWEN GWYNN JONES.

COSTAU:—
Ar gyfer y darlithiau, bwyd a llety—£10. Rhaid cyfyngu ar rif yr aelodau a dylid anfon cais am le yn y Cwrs, ynghyd â blaendal o £5 cyn gynted ag sy bosib i Y SWYDDOG GWEINYDDOL, YR ADRAN EFRYDIAU ALLANOL, 40 PARK PLACE, CAERDYDD, CF1 3BB.

Yn eisiau
Piano ddiaddurn ond yn bersain.
Ffoniwch Caerdydd 611170

M. BLERIOT A'R ARWYDD

Fyddai neb byth yn cyhuddo tre Penarth o arloesi yn yr ymdrech am arwyddion dwyieithog, dilyn o hirbell fydd hanes yr Ardd ger y Môr mae gen i ofn. Ond yn y maes *tairieithog* mae'n fater arall. Ewch am dro, chi a'ch plant a'ch labrador at y pier ym Mhenarth ar bnawn o haf. Trowch eich cefn ar y cerrig gwynion a'r môr siocled, ac yno y tu ôl i'r pethma parcio triphlyg newydd fe saif yr arwydd—braidd yn rhydlyd erbyn hyn, ond yn gwbwl ddarllenadwy.

Saesneg yn gyntaf:— CAUTION. BEWARE OF STONES FALLING FROM THE CLIFF. BEWARE OF BEING CAUGHT BY THE HIGH TIDES. Digon teg. Yna, odditano, yn yr un llythrennau haearn cadarn fe gawn y fersiwn Gymraeg, neu rywbeth yn debyg i Gymraeg. Fel hyn yn *union* y mae'n darllen:— RHYBUDD. GOCHELWCH Y CERYG YN SYRTHIO OR DYBIN UWCHBEN AR PERYGL O FOD AR Y TRAETH PAN Y MAE Y LLANW YN DOD I MEWN.

Wedyn, am eu rhesymau da eu hunain roedd y tadau Fictoraidd wedi ychwanegu ffurf Ffrangeg. Go brin iddyn nhw ragweld dyfodiad y Farchnad Gyffredin. Dyma fo i chi, fel y mae o, fedra i ddim dweud os ydy o'n gywir ai peidio (Roedd hi'n ddewis rhwng Lladin a Ffrangeg yn Ysgol Sir Llangefni. Lladin gymrais i, handi iawn i ddarllen arfbeisiau ac ati) AVIS. ATTENTION Á LA MARÉE MONTANTE ATTENTION AUX DEBRIS DE ROC OUI SE DETACHENT DES FALAISES.

Diddorol fyddai dyfalu'r rheswm am yr arwydd rhyfedd yma—mae'n rhaid fod na stori o ryw fath.

Dilynwn Gymro bach penwyn, yn mynd am dro fel ei arfer ar ben y clogwyn. Mae'n canu y ddeuawd 'Hywel a Blodwen' iddo'i hun, gan gymryd y ddau lais hyd eithaf ei allu. Fe'i galwn o yn Joseph Parry, a'i gartre ym Mhenarth ar y pryd. Odditano ar y traeth fe welwn ffigwr nobl mewn trons (drafers) llaes yn stribedi glas a gwyn, mwstas pigog hir a *beret* du. Dyma M. Bleriot y nofiwr sianel enwog, sydd trwy amryfusedd a llond bol o win coch wedi troi i'r chwith yn Calais, ac wedi cyrraedd Penarth yn hytrach na Dover. Mae M. Bleriot, ac mae hyn yn bwysig, yn Ffrancwr *uniaith*.

Blerwch Bleriot

Mr Parry, ar ben y clogwyn, yn rhoddi ei hunan i Flodwen byth mwy, ac yn chwifio'i freichiau'n egniol i brofi'r pwynt. Yn anffodus mae'n chwifio'n rhy egniol, ac yn taro'i ffon yn erbyn un o'r CERYG mawr ar ymyl y DYBIN. O diar i lawr a hi "Hei" meddai Parry wrth weld Bleriot islaw "Rhybudd. Gochelwch y ceryg yn syrthio or dybin uwchben "

"Pardon?" meddai'r Ffrancwr "qu'est-ce que c'est le DYBIN?"

Estynnodd y Cymro i'w boced am ei lyfryn hwylus 'Cant o Frawddegau Defnyddiol Cyf. IV Cymraeg-Ffrangeg' — anaml iawn yr âi allan hebddo. Ond y tro hwn, cofiodd ei fod wedi ei adael ar y piano o dan y copi gwreiddiol o'r emyn-dôn Aberystwyth. Rhy hwyr! Fe syrthiodd y 'debris de roc' ar *feret* du M. Bleriot, ac er na chafodd fawr o anaf ar y pryd, yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw daeth pwl digon od drosto, ac aeth am dro ar y traeth. Ond och! Roedd y llanw yn DOD I MEWN

Ceisiodd ymwelydd â Phenarth—fe'i galwn yn David Lloyd George—ei rwystro, a'i rybuddio o'r 'Perygl o fod ar y traeth'. Dim iws. Diflannodd M. Bleriot dan yr aig, ac wrth gwrs o fewn blwyddyn roedd Mme Bleriot, pladres fawr dew efo mwstas du, ar ôl y Cyngor am bentwr o gom-pen. Gêm ddrud.

Rhag cael eu dal eilwaith ordrodd y Cyngor yr arwydd haearn—mae o yna hyd heddiw. Yn anffodus tua wythnos cyn ei godi, roedd Signor Marconi, *Eidalwr* uniaith, yn cerdded ar y traeth; uwch ben fe glywai nodau hyfryd 'Myfanwy'. . . .

Dyfed Glyn Jones

DEUAWD
81 SHIRLEY ROAD

Fe fu llawer o sôn yn ddiweddar am Driawd y Coleg, â'r record newydd o'u caneuon sydd ar y gweill. Ond yn ystod mis Ebrill deuawd 81 Heol Shirley fu'n dathlu record bersonol tra gwahanol, sef pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau calonnog i Meredydd Evans a Phyllis ar ddathlu eu priodas arian. Ymlaen am y Jiwbili.

am argraffu safonol cysylltwch â

ARBENIGWYR AR WAITH LLIW AC AR LYFRAU

Un o'r cwmniau mwyaf yn Nê Cymru yn cynnig gwasanaeth argraffu eang ac o safan uchel

COMMERCIAL & SPORTING PRINTERS LTD
Ffordd San Ffagan, Fairwater, Caerdydd. Ffôn 566131/2

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

yn cyflwyno

3 x 3

Cyfres o dri darlleniad gyda beirdd a chantorion o'r Alban, Lloegr ac Iwerddon. Y darlleniad olaf yn y gyfres:

Nos Wener 11 Mai: IWERDDON
SEAMUS HEANEY
DEREK MAHON
JOHN MONTAGUE
a
PATSY MELARKEY

Theatr y Reardon Smith am 7.30 p.m.

Tocynnau: 44c
Myfyrwyr: 33c

Y Busnes Ysgrifennu Yma

Fe ddywedodd un llenor go bwysig unwaith mai niwrotic yn y bôn yw pob artist creadigol, a'r unig beth sydd yn eu cadw allan o'r Seilam yw eu bod, trwy ymdrechu â'u celfyddyd, yn rhoi trefn ar eu niwrosis eu hunain. Synnwn i ddim! Rhyw fath o frwydyr â mi fy hun yw y busnes ysgrifennu yma wedi bod i mi erioed—yn fwy o hunan therapi na dim byd arall. Wnes i erioed fwynhau y weithred i ddweud y gwir, ond ar yr un pryd, mae'n rhaid i mi gyfadde hefyd mod i'n mwynhau llai fyth yr adegau rheini pan na fyddai'n ysgrifennu o gwbwl. Fuo gen i erioed fwriad nac awydd i greu "llenyddiaeth" aruchel. (Mae hyd yn oed y term yn wrthun i mi mewn cysylltiad â'r theatr)—dim ond ysgrifennu yr hyn sydd raid imi gorau ag y gallaf.

Fe ofynodd y Golygydd i mi ddweud gair neu ddau am fy ngwaith fy hun ond does gen i run syniad ble i ddechrau. Does gen i ddim system arbennig hyd yn oed. Weithiau mi fydd drama yn dechrau gyda chymeriadau arbennig sydd wedi apelio ataf, a'r adeg honno mi fydd rhaid creu sefyllfa i ddangos y cymeriadau yma ar eu gorau. Dro arall, y sefyllfa ddaw yn gyntaf ac wedyn mynd ati i greu cymeriadau i ddatblygu'r sefyllfa honno. Ond yn "Saer Doliau" er enghraifft, fe ddechreuodd y cyfan gyda golygfa arbennig—gweld silffodd o ddoliau o bob math mewn siop a meddwl y byddai hynny yn "set" theatr effeithiol.

Mwy o boen na phleser

Fel yr awgrymais eisoes, mae'r weithred o ysgrifennu yn fwy o boen i mi nac o bleser, a rhaid i mi ysgrifennu drafft ar ôl drafft cyn gadael i'r sgript fynd allan o'm dwylo. Hyd yn oed wedyn, nid yw'r ddrama ond wedi hanner ei gorffen. Mae cydweithio gyda chynhyrchydd ac actorion mewn rihyrsals yn peri i mi newid talpiau ohoni ac efallai ychwanegu golygfeydd cyfain. I mi mewn rihyrsal, y mae'r ddrama yn tyfu i fod yn uned theatric— yn y fan honno, y mae y sgerbwd oedd gen i yn dechrau magu cig a gwaed, ac fe allai ddweud yn berffaith onest fod bron bopeth rwyf wedi ei ysgrifennu wedi gwella o dderbyn awgrymiadau gan y cynhyrchydd a'i dîm.

Beth am gynnwys fy nrama. Eto does gan i ddim syniad ble i ddechrau—ond yn fwy na dim 'does gen i ddim syniad beth i'w ddweud ar ôl dechrau. 'Rwy'n amheus hefyd a ddylai awdur geisio dadansoddi neu egluro ei waith ei hun rhag iddo wrth wneud hynny gyflyru meddyliau ei gynulleidfa. I mi, dim ond un peth sy'n bwysig mewn gwirionedd, sef y mwynhad a ddylid ei gael wrth ddod wyneb yn wyneb â'r ddrama, ac un o'r pethau sy'n gyfrifol am y mwynhad yma yw y profiadau theatric a ddaw i ran yr unigolyn wrth iddo ddyfalu, darganfod a dehongli yn ôl ei linyn mesur ei hun.

Fe ddywedais ar ôl perfformiad o "Saer Doliau" i mi glywed tua pum gwahanol ddehongliad ohoni, a phob un ohonynt yn dal dŵr. Cefais fy meirniadu am ddweud hyn gan fod rhai yn mynnu fod terfyn pendant ar ystyr y geiriau. Efallai hynny, ond os oes terfyn ar eu hystyr, yr wyf yn berffaith sicr nad oes terfyn ar eu *cysylltiadau*. Mae *CLOCH* yn golygu rhywbeth gwahanol iawn i Athro Ysgol, Person Plwy a Chwn Pavlov. Gall gair neu weithred ar y llwyfan aigoffa aelodau o'r gynulleidfa am brofiadau sydd efallai, tan y foment honno, wedi bod tan gladd ganddynt yn nyfnderau isaf eu hisymwybod. A gan fod profiadau bob un mor wahanol i'w gilydd, mae eu dehongliad o'r gair neu'r weithred dan sylw yn mynd i wahaniaethu o un i un. Felly, fy ngobaith i yn "Tŷ ar y Tywod"—fel yn "Saer Doliau" o'i blaen, oedd defnyddio bob dyfais bosib o fewn terfynau'r sefyllfa ar y llwyfan i gyfathrebu â'r gynulleidfa gyda'r gobaith o gysylltu fy mhrofiadau theatric i â'u profiadau hwy—a gwneud hynny y foment honno yn y theatr.

Gwrthdaro

Mae llawer Beirniad o dro i dro wedi pwysleisio y dylai pob dramodydd gwerth ei halen greu rhywbeth a *"gwrthdaro"* yn sylfaen iddo. Gwir! Ond mae'n rhaid cofio bob amser hefyd mai nid rhywbeth rhwng cymeriad a chymeriad ar y llwyfan yw drama yn y pen draw, ond rhywbeth rhwng cymeriad ar y llwyfan a chymeriad yn y gynulleidfa. Dyna fy mhwrpas pennaf felly—cyfathrebu â'r gynulleidfa y foment honno yn y theatr, ac i fod yn berffaith onest, mae gen i lawer mwy o ddiddordeb i apelio at eu dychymyg a'u teimladau nac at eu deallusrwydd—wedi'r cyfan nid y deall sy'n rheoli a llywio bywyd yr unigolyn yn yr hen fyd yma ond—*ei obeithion, ei bryderon, ei ddyheadau, ei euogrwydd* ac, *efallai yn fwy na dim*—ei ansicrwydd.

Mwynhad theatric yn y theatr yw pennaf nôd fy nrama felly ac os y methant a chyflawni hyn—yn y fasged sbwriel mae eu lle nhw. Os oes *neges* ynddynt—y neges honno fydd yr un a wêl y gwyliwr.

GWENLYN PARRY

Gwyn Parri, Olwen Rees a Christine Pritchard mewn golygfa allan o'r 'Rhandir Mwyn' (Marian Eames) a deledir ar BBC Cymru

Cymdeithas Lyfrau Caerdydd A Dwyrain Morgannwg

Rydym yn un o'r pum Cymdeithas Lyfrau ar hugain sy'n gweithio'n lleol ar hyd a lled Cymru dan nawdd y Cyngor Llyfrau Cymraeg (Sgwâr Brenhines, Aberystwyth). Ein prif bwrpas ydyw hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg yn ein cylch ni. Gwerthwn rai cannoedd o lyfrau mewn cyfarfodydd rhieni a gynhelir gan Ysgolion Cymraeg ein cylch—megis Ysgolion y Barri a Chogau, Ysgol Rhydfelen ac ati.

Gall unrhywun ddod i berthyn i'r Gymdeithas ac i'r Cyngor Llyfrau trwy brynu llyfryn yn cynnwys tocynnau llyfrau am £2.10. Yn y llyfryn hwn mae gwerth £2 o stampiau llyfrau y gellir eu cyfnewid mewn siop lyfrau Cymraeg am lyfrau Cymraeg. Codir y 10c ychwanegol am y llyfryn i ymaelodi. Yna bob hanner blwyddyn dylai pob aelod dderbyn cylchgrawn y Cyngor Llyfrau sef 'Llais Llyfrau' (golygydd Mrs Lenna Pritchard-Jones). Mae'r cylchgrawn hwn yn cynnwys erthyglau am lyfrau, rhestr o'r llyfrau diweddaraf a phob math o newyddion diddorol am awduron a'u gwaith yn ogystal a gwybodaeth amryfal am fyd llyfrau.

Mae'r ysgrifennydd yn croesawu unrhyw ymholiad mewn llythyr neu dros y ffôn ynglŷn â llyfrau Cymraeg. Yn 1972 cafodd Ysgol Gymraeg Bryntaf y wobr gyntaf am werthu llyfrau Cymraeg yn yr Ymgyrch Lyfrau, a chafodd Cangen Caerdydd Merched y Wawr y drydedd wobr yn nosbarth y cymdeithasau.

Mae Ysgol Sul Ebeneser Caerdydd wedi bod yn rhoi tocynnau llyfrau'n anrhegion Nadolig i blant yr Ysgol Sul ers blynyddoedd. Gellir cael y rhain oddi wrth yr Ysgrifennydd—mae pob cerdyn yn werth 2g a gellir rhoi ynddo stampiau o werth gwahanol—25c, 50c, ac ati fel y mynner. Rhaid gofalu, fodd bynnag, i archebu fis ymlaen llaw am fod stampiau arbennig i'w rhoi yn y cardiau hyn, nid y stampiau allan o'r llyfryn £2.10c.

Swyddogion Presennol:
Cadeirydd: Mr D. J. Davies, Sain Ffagan
Is-Gadeirydd: Dr. Glyn Ashton, Y Barri

Trysorydd: Mr Kenneth Lloyd-Jones, Banc y Midland, Caerffili

Ysgrifennydd: Mrs Mair Elvet Thomas, Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton, Caerdydd, CF1 9HF (Ffon 22589)

Ysgrifenyddion Cynorthwyol:
Miss Audrey Lake
Miss Anne Wilkins

Y CLWB RYGBI

Roeddwn i'n edrych, y Sadwrn diwethaf, ar ffotograff o'r tim cyntaf erioed a chwaraeodd i'r Clwb, yn 1967/68, ac yn sylwi taw dim ond tri o'r bechgyn hynny sy'n dal i chwarae dros y Clwb. Y tri yw Alun Siarls y capten presennol, Alun Davies y bachwr caled o ardal Tregaron a'r cymeriad mwyaf yn ein plith, onid y mwyaf ym mhlith holl Gymry Caerdydd, sef D. W. Jones, neu 'Doc' fel y'i gelwir gan bawb.

Bydd Alun Davies yn ein gadael ar ddiwedd y tymor a dymunwn yn dda iddo'n ei swydd newydd yn Sir Geredigion. Nid oes sôn fod Doc yn rhoi'r gorau iddi ac felly edrychwn ymlaen i'w weld yn wyrgamu eto'r tymor nesa'.

Tua diwedd mis Mawrth bu'r tim cyntaf yn chwarae'n erbyn tim o Hen Fechgyn Ysgol Cathays, yn y rownd gyn-derfynol o Gwpan Mallett. Yn ystod y gêm sgoriwyd dwy gic gosb gan y ddau dim a rhaid oedd bwrw ati o'r newydd ar brynhawn arall. Pan ddaeth yr amser i ben eilwaith nid oedd sgôr. Dyma'r frwydr yn parhau am ddeng munud bob ffordd a chollwyd y gêm o ddeg pwynt i ddim.

Teithiodd y tim cyntaf ddwywaith i'r gorllewin yn ystod y mis diwethaf gan guro Seven Sisters 12-8, a churo Gorseinon 12-11. Chwaraeodd y pac yn eithriadol o dda'n y ddwy gêm yma gyda'r rheng ôl, yn cynnwys Keith Davies, Wyn Williams ac Alun Siarls yn rheoli'r olwyr gyferbyn a hwy'n fedrus iawn. Yn erbyn Gorseinon fe neidiodd E. D. Jones yn uchel a chafodd ddigon o'r bêl o'r llinellau. Sgoriodd John Richards gais arbennig o dda. Fe gofir y gêm hon hefyd am y dacl anhygoel a gyflawnodd John yn ail hanner y gêm. Ble 'roedd y camera Martin? Wrth gofio fod y ddau dim yma'n aelodau o Gynghrair Gorllewin Cymru, dangosodd ein bechgyn eu bod yn medru chwarae cystal rygbi a hwy bob tamaid.

Tymor eithaf da

Ar wahan i'r daith flynyddol sy'n gorffen ein tymor rygbi, dyma fanylion y tim cyntaf (ag eithrio gemau'r cwpan) Chwaraewyd 28, enillwyd 15, cydradd 3 a chollwyd 10, sgoriwyd 395 o bwyntiau gyda 298 yn ein herbyn. Mae hyn yn datgan tymor eithaf llwyddiannus ar y cyfan.

Braidd yn siomedig fu canlyniadau'r ail dim eleni er iddynt golli llawer i gêm o fewn trwch blewyn. Bu'n rhaid i'w capten, Pete Morgan, golli rhai o'i chwaraewyr gorau i'r tim cyntaf amryw o weithiau. Ni chawsant gurfa dost y tymor hwn fel y digwyddodd iddynt lawer gwaith y llynedd. Dengys hyn fod y Clwb yn mynd o nerth i nerth.

Edrychir ymlaen i'r daith flynyddol gan nad yw'r rhaglen yn rhy drwm. Un gêm a chwaraeir yn ystod y pen-wythnos yn Harlech, a honno'n digwydd ar yr 28ain o Ebrill yn erbyn y tim lleol.

Wedi prysurdeb y gaeaf bydd Garfield Jones ein hysgrifennydd a Glyn Davies ein hysgrifennydd gemau'n barod am seibiant. Bu Eifion Griffiths yn drysorydd dyfal a manwl ynglŷn â'r cyfrifon a disgwylir adroddiad iachus ganddo yn y cyfarfod cyffredinol nesaf. Cynhelir hwnnw ar ddechrau mis Mai pan ddewisir swyddogion am 1973/74.

William Jones

Er mwyn Cenwyn Edwards, gohebydd diduedd—
Caerdydd 7 Llanelli 30

EDRYCH YMLAEN AM Y GAEAF

Mae'n swnio'n beth od i'w ddweud, ond nawr yw'r amser i ni ddechre meddwl beth fyddwn am ei wneud fin nos yn ystod y gaea' nesa.

Fel y darllensoch yn rhifyn cyntaf 'Y Dinesydd' fe gychwynnwyd dosbarth gwnio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgol Glan y Nant y gaeaf a aeth heibio. (merched y Wawr a'r Pwyllgor addysg yn cyd weithio) Nawr mae'r Pwyllgor yn dra bodlon trefnu dosbarthiadau nos Cymraeg mewn canolfannau eraill. (Glan Elai, Ty Celyn) a hynny mewn nifer o bynciau.

Does dim brafiach na chael criw o ffrindie wrthi'n clebran yn y famiaith dros waith coed, blodau, ffotograffiaeth, crochenwaith etc. Mae'n bosibl trefnu rota o'r fath ddosbarthiadau.

Mae wardeniaid y canolfannau addysg-nos wrthi eisoes yn tynnu allan eu rhestri o'r darlithwyr a'r pynciau. Mae'n nhw am gael gwybod gan y Cymru nawr, faint o alw sydd am ddosbarthiadau ac ar ba bynciau. *Nawr* nid mis Medi. Bydd yn rhy hwyr erbyn hynny.

Felly anfonwch eich henwau, eich cyfeiriadau a'ch awgrymiadau ar bynciau yn syth at—

Mrs Eirwen Davies,
Penychen,
41 Highfields,
Llandaf.

CLWB CYMRIC

Hyn o air i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod cyffredinol y Clwb uchod ar nos Fercher yr 16eg o fis Mai yng Nghwesty'r Clive am 7.30.

Os oes yn eich meddiant bâr o esgidiau, pâr o draed a thâl aelodaeth am flwyddyn, dowch yn llu. Mae mawr angen am chwaraewyr i gymryd lle Gai Bells—dim sgidia', Dewi ap—dim gwynt, a Mêt, dim tâl aelodaeth.

PRIODI

Dymuniadau da i Charles Cravos a Menna Dafydd, ac i Penri Williams a Carol Prater ar briodi yn ystod mis Ebrill.

(Diau y priodwyd eraill, ond ni ddaeth y wybodaeth i ddwylo'r Dinesydd. Cofiwch anfon newyddion atom yn rheolaidd)

GENI

Llongyfarchion i—

Hywel a Carys Rees, Rhiwbeina, ar enedigaeth ail ferch, Catrin Gealy.

Gerwyn a Non Davies, Penarth ar enedigaeth Ceri Rhys. (Bydd llawer o rieni yn cofio am 'Miss Nan Davies' yr athrawes yn Ysgol Gymraeg Bryntaf. Mae hi hefyd, gyda llaw, yn chwaer i'r Hywel Rees uchod—cyd amseru da rhwng brawd a chwaer.)

Glyn a Gladys Jones, Bryn-derwen, Cyncoed, ar enedigaeth merch, Rhian—chwaer i Non.

Colin ac Eiry Palfrey, Rose Cottage, Groeswen, Caerffili, ar enedigaeth mab.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD PONTYPRIDD A'R CYLCH

Apêl am lety rhad

Mae angen dirfawr am lety rhad i rai cannoedd o blant fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod uchod. Os gallwch gael hyd i le i un, dau neu fwy ohonynt yn eich cartref chi, bydd y Pwyllgor Llety a Chroeso yn ddiolchgar iawn ichi.

Cysylltwch yn syth â'r ysgrifynyddes—

Miss Lorraine Davies,
'Paradise Villa',
57 Heol Ainsbury,
Penylan, Caerdydd.

Cyhoeddwyd gan Fwrdd Rheoli'r Dinesydd. Argraffwyd yng Nghymru gan CSP Cyf, Caerdydd.